DINAS A SIR CAERDYDD
CITY AND COUNTY OF CARDIFF

| | |
|---|---|
| **GWYS Y CYNGOR** | DYDD IAU, 28 IONAWR 2016 |
| **COUNCIL SUMMONS** | THURSDAY, 28 JANUARY 2016, |

Fe'ch gwysir I fynychu cyfarfod **CYNGOR SIR DINAS A SIR CAERDYDD**, a gynhelir yn Council Chamber - City Hall on Dydd Iau, 28 Ionawr 2016 at 4.30 pm I drafod y materion a nodir yn yr agenda atodedig.

**MARIE ROSENTHAL**
Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol

Neuadd y Sir
Caerdydd
CF10 4UW

Dydd Gwener, 22 Ionawr 2016

| *Eitem* | | *Amser yn fras* | *Yr amserr hwyaf a ganiateir* |
|---|---|---|---|
| **1** | **Ymddiheuriadau am absenoldeb**<br><br>*Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.* | | |
| **2** | **Datgan Buddiannau**<br><br>*Derbyn datganiadau buddiannau (i'w gwneud yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau).* | 4.30 pm | 5 mins |
| **3** | **Cofnodion**<br>*(Tudalennau 1 - 50)*<br>*Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod 26 Tachwedd 2015 fel cofnod cywir.* | 4.35 pm | 5 mins |
| **4** | **Deisebau**<br><br>*Derbyn deisebau gan Aelodau Etholedig i'r Cyngor.* | 4.40 pm | 5 mins |
| **5** | **Cwestiynau gan y Cyhoedd**<br><br>*Derbyn cwestiynau a nodwyd yn flaenorol gan y Cyhoedd.* | 4.45 pm | 15 mins |
| **6** | **Cyhoeddiadau'r Arglwydd Faer**<br><br>*Derbyn cyhoeddiadau'r Arglwydd Faer gan gynnwys Cydnabyddiaethau a Gwobrau.* | 5.00 pm | 5 mins |
| **Busnes y Cyngor** | | | |
| **7** | **Mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd**<br>*(Tudalennau 51 - 2064)*<br>*I dderbyn cynnig y Cabinet i fabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd 2006 i 2021 a chymeradwyo Adroddiad yr Arolygydd, Datganiad Mabwysiadu, yr Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd Terfynol ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.* | 5.05 pm | 60 mins |
| **8** | **Rôl Aelodau Etholedig o ran Diogelu Plant ac Oedolion Agored i Niwed**<br>*(Tudalennau 2065 - 2102)*<br>*Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau a Moeseg, Mr Richard Tebboth yno i gyflwyno'r adroddiad.* | 6.05 pm | 20 mins |
| **9** | **Datganiadau'r Arweinydd ac Aelodau'r Cabinet**<br><br>*Derbyn datganiadau gan yr Arweinydd ac Aelodau'r Cabinet* | 6.25 pm | 45 mins |

| Hysbysiad Cynnig | | | |
|---|---|---|---|
| **10** | **Hysbysiad Cynnig 1**<br><br>Mae'r Cyngor yn nodi'r heriau a wynebir gan Gaerdydd o ran ailgylchu.<br><br>Mae'r Cyngor felly'n gofyn i'r Cabinet:<br><br>1. Ail-agor canolfannau ailgylchu Waungron Road a Wedal Road:<br><br>2. Datblygu dull wedi'i ddatganoli ar gyfer ailgylchu<br><br>Cynigiwyd gan: Y Cynghorydd Neil McEvoy<br><br>Eiliwyd gan: Y Cynghorydd Gareth Holden. | 7.10 pm | 30 mins |
| **11** | **Hysbysiad Cynnig 2**<br><br>Noda'r Cyngor y canlynol:<br><br>• Mae 3,726 o bobl yng Nghaerdydd yn byw gyda dementia. Disgwylir i gyfanswm y bobl â dementia yn y DU godi i dros 1 filiwn erbyn 2025 ac i dros 2 filiwn erbyn 2051, ac mae'r cynnydd yn digwydd trwy boblogaeth sy'n heneiddio.<br><br>• Ym mis Medi 2014, cytunodd y Cyngor yn unfrydol i weithio tuag at wneud Caerdydd yn gymuned sy'n gefnogol o ddementia.<br><br>• Mae Cyngor Caerdydd yn bartner strategol yng Nghynllun Tair Blynedd Dementia Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.<br><br>• Dan gynigion cyllidebol drafft y Cabinet, cynigir tynnu cyllid y cyngor yn ôl ar gyfer Gwasanaeth Cymorth Dydd Cymdeithas Alzheimer yn Llys Oldwell ym Mhen-y-lan.<br><br>• Mae Llys Oldwell yn cefnogi 65 o bobl ledled y ddinas gyda symptomau cymedrol i ddifrifol o ddementia; mae anghenion gofal yn cynnwys cymorth gydag ymataliad a bwydo. Mae hefyd yn cynnig seibiant i ofalwyr gan roi cymorth emosiynol ac ymarferol i'r rheiny ag anghenion cymhleth.<br><br>Mae'r Cyngor yn galw ar y cabinet i weithredu yn unol â'i nod penodol o gefnogi'r rheiny sy'n byw gyda dementia a'u teuluoedd, drwy addo diogelu cyllid ar gyfer gwasanaethau yn Llys Oldwell ar gyfer y flwyddyn | 7.40 pm | 30 mins |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ariannol 2016/17.<br><br>Cynigiwyd gan: Y Cynghorydd Carter<br><br>Eiliwyd gan: Y Cynghorydd Kelloway | | |
| **12** | **Cwestiynau Llafar**<br><br>*Derbyn cwestiynau llafar i'r Arweinydd, Aelodau'r Cabinet, Cadeiryddion Pwyllgorau a/neu Aelodau enwebedig o'r Awdurdod Tân.* | 8.10 pm | 90 mins |
| **13** | **Materion Brys** | 9.40 pm | 5 mins |
| **Materion y Cyngor nas Gwrthwynebir** | | | |
| **14** | **Penodi Llywodraethwyr Awdurdod Lleol i Gyrff Llywodraethu Ysgolion**<br>*(Tudalennau 2103 - 2108)*<br>*Cymeradwyo argymhellion Panel Llywodraethu'r Awdurdod Lleol 21 Ionawr 2016.*<br><br>*Mae Adroddiad y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol wedi'i atodi.* | 9.45 pm | |
| **15** | **Penodi Llywodraethwyr Ysgol Awdurdod Lleol, Rhieni a Staff i Gyrff Llywodraethu Dros Dro Newydd**<br>*(Tudalennau 2109 - 2114)*<br>*Mae Adroddiad y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol wedi'i atodi.* | | |
| **16** | **Aelodaeth Pwyllgor**<br>*(Tudalennau 2115 - 2116)*<br>*Mae Adroddiad y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol wedi'i atodi.* | | 5 mins |
| **17** | **Gwneud Penderfyniad Brys mewn perthynas ag Ysgol Gynradd Trelái**<br>*(Tudalennau 2117 - 2118)*<br>*Adroddwyd i'r Cyngor er gwybodaeth dan Reol Gweithdrefn Graffu 13(a) Cyfansoddiad Caerdydd.*<br><br>*Adroddiad y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol.* | | |
| **18** | **Cwestiynau Ysgrifenedig**<br><br>*Yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor, Rheol 17(f), caiff Cwestiynau Ysgrifenedig eu hystyried a'r ymateb ei gynnwys fel cofnod yng nghofnodion y cyfarfod.* | | |